

Llais yr Andes



Papur Bro Hydref (Trevelin ac Esquel)

Tachwedd 2013

Pris:
\$7

Llongyfarchiadau!

Mary Green, Trevelin ddaeth i'r brig ac ennill Cadair Eisteddfod y Wladfa eleni. Y dasg oedd llunio cerdd neu gyfres o gerddi ar y testun: 'Yr Afon'. Llongyfarchiadau mawr oddi-wrth 'Llais yr Andes'. Llongyfarchiadau hefyd i bawb o Esquel a Threvelin a wnaeth gymryd rhan yn yr Eisteddfod, boed hynny ar y llwyfan yn adrodd, cyd-adrodd, canu yng nghôr Seion neu gystadlu yn yr adran lenyddiaeth.

Wedi Eisteddfod lwyddiannus yn Nhrelew, mae golygon pawb erbyn hyn yn troi tuag at yr arlwy fydd yn eu haros yn Eisteddfod Trevelin ar y 22ain a'r 23ain o Dachwedd. Dymunwn bob llwyddiant i Eisteddfod Trevelin 2013.

Cewch ddarllen y gerdd fuddugol ar dudalen 9.



Mae'r rhifyn hwn dan ei sang â holl fwrlwm Esquel a Threvelin!

Taith yr Urdd Patagonia 2013—tud. 7

Dathlu'r Nadolig ym Mhatagonia—tud. 10

Gair o'r Hen Wlad—tud. 14 a llawer mwy!

Eluned Owena Evans

Eich papur bro chi ydy hwn, felly cofiwch anfon eich cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf (yn 2014!) at Eluned - eluned@menterpatagonia.org neu elunedowena@hotmail.com. Diolch yn fawr.

Capel Bethel Trevelin a Chapel Seion Esquel

Cafwyd oedfaon y Gwanwyn yng Nghapel Bethel Trevelin a Chapel Seion Esquel yn ddiweddar, ac roedd y capeli yn edrych yn hyfryd gyda'r holl gennin pedr a blodau'r gwanwyn. Roedd y tywydd yn braf iawn a ro'n i'n hapus iawn i weld gymaint o bobl yn bresennol. Roedd Eluned yn pregethu'n Gymraeg a fi yn Sbaeneg, ac ar ôl y gwasanaethau aethon ni i gyd i gael te a rhywbeth blasus i'w fwyta yn y festri ac yn y Ganolfan. Bydd oedfa'r Nadolig yng Nghapel Bethel Trevelin ar Ragfyr 1af ac yng Nghapel Seion Esquel ar yr 8fed o Ragfyr. Diolch i bawb am eu cefnogaeth eleni a phob bendith i bawb dros y Nadolig a'r flwyddyn newydd.

Isaías Grandis



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr iawn i Esther Valmai Evans Hughes am ennill y gystadleuaeth ar gyfer y rhai sydd wedi byw yn y Wladfa gydol eu hoes, yn Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych a'r Cyffiniau eleni gyda'i gwaith ar 'Y Pedwar Tymor'. Yr ydym ni i gyd yn falch iawn o'ch llwyddiant Esther!



Noson Fecsicanaidd Trevelin

Cafwyd noson ddifyr iawn yn Ysgol Gymraeg Trevelin yn ddiweddar wrth i griw ohonom ni ddod at ein gilydd i fwynhau Noson Fecsicanaidd. Roedd hi hefyd yn gyfle i ddathlu'r Gwanwyn ac i groesawu Sara ac Ivana yn ôl i'n plith ar ôl eu cyfnod ym Mhrifysgol Caerdydd. Daeth Estela yn ôl rai wythnosau yn ddiweddarach. Cafodd bawb lond eu boliau o *tacos*, ond roedd ambell i saws yn rhy boeth i rai! Diolch i Vangi ac Isaías Grandis am helpu gyda'r bwyd! Ar ôl gloddesta ar y *tacos* cig eidion a chyw iâr, roedd hi'n amser chwarae ambell i gêm cyn cyrraedd uchafbwynt y noson – y *piñata*!



Noson Gyrri Esquel

Cawsom noson werth chweil yn y Noson Gyrri a Chwis yn y Ganolfan yn Esquel hefyd. Braf oedd gweld cymaint yn awyddus i flasau'r cyrri.....a blasus iawn ydoedd hefyd a phawb yn ysu am fwy! Diolch yn fawr iawn i Rini am ei help mawr yn y gegin. Cyn y pwdin, roedd hi'n amser i bawb brofi eu gwybodaeth yn y cwis gwybodaeth gyffredinol. Eluned a Soraya oedd y cwis-feistri ac ar ôl cystadlu brwd ymysg y timoedd, Sglefrfyddio oedd y tîm buddugol – llongyfarchiadau! Cyn ffarwelio, a throi am adre, cawsom gyfle i glywed ychydig o hanes Estela Jones yng Nghymru. Roedd hi'n hyfryd clywed am ei hamser yn y Brifysgol a gweld lluniau o bob cwr o Gymru.



Diolch

Diolch yn fawr iawn i'n cyfeillion yng Nghymru am eu rhoddion caredig, oddi-wrth bawb yn Ysgol Gymraeg yr Andes Esquel ac Ysgol Gymraeg yr Andes Trevelin.



Yr haf yng Nghymru

Dros yr haf, fues i'n ffodus iawn i gael y cyfle i astudio Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd am ddeufis. Roedd yn gwrs dwys iawn, ond helpodd fi llawer iawn i ddeall sut mae'r iaith yn gweithio, a dysgu am y diwylliant hefyd wrth fyw gyda dau deulu gwahanol. Roedd y tiwtoriaid yn grêt a ro'n i'n hoffi bod tiwtoriaid gwahanol gyda steiliau gwahanol yn ein dysgu ni. Roedd y ffaith eu bod nhw wedi dysgu Cymraeg fel oedolion neu yn ifanc iawn yn dda achos ro'n nhw'n gallu uniaethu gyda ni.



Ro'n i'n aros gyda dau deulu hyfryd hyfryd ac ro'n i wrth fy modd yn siarad Cymraeg a mynd ar deithiau o gwmpas yr ardal gyda nhw. Oherwydd hyn, ces i sawl cyfle i siarad yr iaith y tu allan i waliau'r Brifysgol o gwmpas Caerdydd a thu hwnt.

Mae Caerdydd wrth gwrs yn dref gosmopolitan iawn gyda sawl iaith yn cael ei siarad. Mae acenion Cymraeg gwahanol hefyd achos bod pobl o Ogledd Cymru a'r canolbarth wedi symud i Gaerdydd i weithio. Ro'n i wedi mynd i Gymru i siarad Cymraeg. Yn ôl y cyfrifiad diwetha, mae 19% o bobl Cymru yn siarad Cymraeg. Ro'n i'n benderfynol o ddod o hyd i'r siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd er mwyn ymarfer siarad yr iaith.

Er bod yr iaith yn weledol yn y ddinas ar arwyddion ac yn y blaen, doeddwn i ddim yn clywed gymaint o'r iaith yn y siopau ar y dechrau. Ond, os wyt ti'n benderfynol o eisiau siarad Cymraeg yn y dre, ar y bws, mewn tacsi, mewn siop, mae'n 100% posib gwneud hynny. Cwestiwn o agwedd ydy yn fy marn i yn fwy na dim. Dw i ddim yn berson swil, felly pan ro'n i'n prynu rhywbeth mewn siop neu'n mynd i fwyta yn y Bae, ro'n i'n gofyn yn gyntaf 'Wyt ti'n siarad Cymraeg?' Siaradais i lot o Gymraeg wrth wneud hyn a gyda phobl o bob man dros Gymru ac roedd pawb â diddordeb achos ro'n i'n dod o Batagonia. Dw i'n credu bod siarad â phobl mewn sefyllfaoedd real mor bwysig pan dych chi'n dysgu iaith. Dw i'n siarad Saesneg yn rhugl, ond do'n i ddim eisiau troi at y Saesneg achos nid dyna'r rheswm pam ro'n i yna. Yn fwy na dim hefyd, ro'n i yng Nghymru wrth gwrs, ac yn dilyn cwrs Cymraeg ym Mhrifysgol Caerdydd, felly dim ond Cymraeg ro'n i eisiau siarad.



Ar ôl fy mhrofiad i o fyw yng Nghaerdydd, dw i'n gweld bod llawer iawn o deuluoedd sy'n siarad Cymraeg yn byw yn y ddinas ac sy'n siarad Cymraeg yn eu tai nhw, ac mae llawer o weithwyr mewn siopau a mewn bwytai yn y ddinas yn siarad Cymraeg hefyd. Fy neges i i unrhywun sy'n dysgu Cymraeg yng Nghymru ydy i chi roi tro ar ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf mewn llefydd cyhoeddus - dw i'n siŵr y cewch chi'ch plesio ar yr ochr orau fel y ces i fy mhlesio, ac fe gewch chi sawl sgwrs ddifyr iawn.

Ivana Mansilla

Clwb Dawnsio Gwerin Trevelin dan arweiniad Jessica Jones

Plant iau—nos Lun rhwng 19:00 a 20:30 yn Ysgol y Felin

Plant hŷn ac oedolion—nos Fawrth rhwng 19:00 a 20:30 yn Ysgol y Felin

Ymunwch yn yr hwyl!



Gwirfoddolwraig yn Yr Andes

Catrin Machado ydwy i ac o Bont-y-pŵl yn Ne Cymru dw i'n dod. Astudiais i'r Gyfraith gyda Sbaeneg yn y brifysgol. Gorffennai i'r brifysgol ym mis Mehefin a mis Medi nesaf dw i'n mynd i weithio ac astudio yn Llundain er mwyn i mi allu fod yn gyfreithwraig. Felly gan fod blwyddyn yn rhydd gyda mi, penderfynais i ddod i Batagonia i wirfoddoli yn yr Andes a'r Dyffryn i ddysgu am y diwylliant Cymreig yma ac i wella fy Sbaeneg. Dw i wedi mwynhau fy arhosiad yma ac wedi ymweld â Nant y Fall, Y Felin yn Nhrevelin, ac wedi mynd ar y Trochita. Ymhen wythnos dw i'n teithio yn ôl i Fuenos Aires ac yn ymweld ag Uruguay a rhannau o Frasil hefyd. Ond diolch i bawb am wneud i mi deimlo'n gartrefol iawn yma yn yr Andes!



Estela yng Nghymru

Ym mis Mawrth ges i ysgoloriaeth i astudio yng Nghymru ac roedd hyn yn llawenydd mawr i mi. Wnes i ddau gwrs haf yng Nghaerdydd-Canolradd ac Uwch 1. Roedd y cyrsiau yn dda iawn a wnes i ddysgu llawer o ramadeg, darllen a siarad Cymraeg yn well.

Roedd hi'n braf iawn i fyw misoedd Gorffennaf ac Awst mewn dinas mor neis â Chaerdydd. Ar ôl gorffen y cwrs, es i am bymtheg niwrnod i ymweld â

fy nheulu yng ngogledd Cymru.

Dw i'n gallu dweud yn awr bod Cymru yn hyfryd. Diolch i'r holl bobl sy'n gweithio i gadw'r iaith Gymraeg yn fyw.

Estela Jones



Gorsedd y Wladfa

Braint ac anrhydedd oedd cael fy ngwahodd i fod yn aelod o Orsedd y Wladfa yn Eisteddfod y Wladfa 2013, a hyfryd oedd rhannu'r profiad gyda Rhisiart Arwel ac Elin Glyn. Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad. Gallaf eich sicrhau y byddaf yn parhau i weithio'n ddyfal yn yr Andes y flwyddyn nesa' er mwyn rhoi'r cyfle gorau posib i fyfyrwyr Ysgol Gymraeg Trevelin ac Esquel ddatblygu'n ieithyddol ac yn gymdeithasol drwy gyfrwng amryw weithgareddau.

Eluned Owena Evans

(Eluned Rhos Wen)



Taith yr Urdd Patagonia 2013

Tomos Gwyn

Pan ges i fy newis i fynd ar y daith, roeddwn i'n eitha cyffrous amdano - mynd i wlad bell i weld fy mamiaith yn cael ei siarad. Nes i ddim disgwyl cael cymaint o brofiadau gwych ag y cefais, ac i gyfarfod pobl anhygoel yno. Roedd y daith wedi ei drefnu yn berffaith - o'r gweithgareddau hyd at y cymdeithasu, a dwi wedi dod adre gyda llond llaw o ffrindiau newydd (ffrindiau am byth!) Pe bai'n rhaid i mi ddisgrifio'r daith mewn un gair, baswn i'n dewis bythgofiadwy.



Lois Hughes

Wedi cyrredd adref ers ychydig dros wythnos bellach a hiraethu am y bythefonos bythgofiadwy ym Mhatagonia yn barod! Profiad anhygoel o gael clywed y Gymraeg yn fyw ar ochr arall y byd a chyfarfod ag Einar ac Amelia yn Nhrevelin a chael asado ar fferm y Greens! Tydw i byth yn mynd i anghofio clywed plant ysgolion yr Andes yn canu Sosban Fach i ni a Calon Lân a chaneuon Cymreig ar y bws ac yn y cyngherddau o gwmpas Esquel! Does 'na ddim gair i ddisgrifio fy amser i ym Mhatagonia! Atgofion neith aros hefo fi am byth. Diolch i bawb a helpodd ac a roddodd eu hamser i fod hefo ni ar y daith.



Gwen Thomas

Wel, be alla i ddweud! Diolch yn fawr iawn i bawb am y croeso cynnes iawn a gawsom gennych! Roedd yn brofiad bythgofiadwy a reit rhyfedd gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu mewn gwlad sydd mor bell o adref. Mae'n siŵr mai uchafbwynt y daith i mi oedd cystadlu yn yr Eisteddfod, er bod agweddau tebyg i'n heisteddfod ni, roedd hi'n braf iawn gweld dylanwad y Sbaeneg arni! Felly, diolch yn fawr iawn i bawb unwaith eto, a gobeithio, ryw ddydd, y byddaf nôl yn eich cwmni!

Alwen Messamah

Er fy mod erbyn hyn wedi dychwelyd o fy nhaith ac arferu unwaith eto hefo trefn bywyd adra; dwi dal i hiraethu. Fel rhywun sydd wedi bod yn ffodus i deithio llawer, rwyf wedi hen arfer hefo methu ardal ond roedd fy

nhaith i Batagonia yn wahanol. Patagonia yw'r unig le yr wyf wedi teimlo'n wir gyfforddus; fel fy mod yn dychwelyd at ail gartref yn hytrach nag ymweld â gwlad ddieithr ar ochr arall y byd. Cawsom groeso cynnes gan bawb yn Nhrefelin ac Esquel lle'r oedd yr Andes yn fy atgoffa o adra, a'r Gaiman a Threlew lle'r oedd clywed gymaint o'r Gymraeg yn bleser. Roedd hi'n llwyr arallfydol i glywed fy mamiaith yn cael ei siarad yn rhugl gan y rhai a gyfarfodwn, yn enwedig yn y gymuned yn Nhrefelin lle gefais y siawns i gyfarfod a sgwrsio hefo Ginny am gefndir ei theulu hi. Roedd fy mhrofiad yn yr Eisteddfod yn Nhrelew hefyd yn hollol wallgof ac rwyf yn ddiolchgar am y ffrindiau o gael y profiad. Dwi'n hynod ddiolchgar i bawb a wnaeth ein taith yn bosib, roedd fy nhaith hefo'r Urdd yn un bythgofiadwy a gobeithiaf ddychwelyd yn y dyfodol.

Undeg Steffan

Wedi blwyddyn o aros roedd y cyffro i fynd i'r Wladfa yn fwy nag o'r blaen a phawb yn barod am y daith i ben draw'r byd. Roedd y daith yn un hir a blinedig ond ar ôl cyrraedd anghofiais yn gyfan gwbl amdani. Rhaid dweud bod deffro ar y bore cyntaf i olygfa Gorsedd y Cwmwl yn atgof fydd yn aros yn y côf. Roedd hi'n braf cael aros yn Nhrevelin, pentref hardd iawn, ac roedd hi'n ffrindiau cael cyfarfod pobl y pentref a siarad Cymraeg â nhw. Fe wnes i fwynhau sesiwn twmpath gyda phlant Ysgol Gymraeg yr Andes a chael cymdeithasu yn Gymraeg. Roedd y profiadau yn y Gaiman yr un mor werthfawr, wrth i ni gael mwynhau trip i weld y Pengwiniaid gyda phlant Ysgol yr Hendre, a chymeryd rhan mewn cyngerdd gyda nhw. Roedd cael bod yn rhan o Eisteddfod Chubut yn brofiad anhygoel hefyd a chael cystadlu ar lwyfan y brifwyl. Diolch i bawb am y croeso cynnes, rydw i'n hiraethu'n fawr am y Wladfa!



Clwb cyd-adrodd Trevelin

'Ryda ni'n mwynhau adrodd yn Gymraeg!
Y tro dwetha' i ni gyflwyno darn o farddoniaeth o flaen cynulleidfa oedd ar achlysur ymweliad beirdd o dair gwlad sef Ariannin, Chile a Chymru. 'Roedd eu taith wedi ei threfnu gan Cyfnewidfa Llên Cymru, ac yn cynrychioli yr Hen Wlad oedd neb llai na Mererid Hopwood a Karen Owen. Felly aethom ati i ddysgu darn o farddoniaeth Mererid, sef rhan gyntaf Gwreiddiau, y gerdd a oedd yn deilwng o'r goron yn Eisteddfod Genedlaethol Meifod yn 2003. 'Roedd Mererid wrth ei bodd yn gwrando.



'Roedd y ddwy wedi eu cyfareddu gan ehangder y paith wrth deithio i fyny tua'r Andes o'r Dyffryn y diwrnod blaenorol, ac hefyd at y mynyddoedd sydd o'n cwmpas yma yn Nghwm Hyfryd gydag enwau mor swynol â Gorsedd y Cwmwl, Graig Goch a Mynydd Llwyd.

Mae Karen a Mererid wedi addo dod yn ôl i ymweld â ni gyda mwy o amser y tro nesa'.

'Ryda ni wedi mynd bod yn ymarfer Salm 23 ar gyfer cystadleuaeth cyd adrodd yn Eisteddfod y Wladfa yn Nhrelew yn ddiweddar. 'Roedda ni wedi arfer efo'r hen fersiwn, gyda geiriau fel "gwelltog" a "thragywydd" yn lle "breision" a "gweddill fy nyddiau", ac felly rhaid oedd ail ddysgu yr hen salm adnabyddus. Mae yn dechrau gyda'r un geiriau yn y fersiwn fodern er hynny, sef "Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf..."

'Ryda ni'n gweld eisiau Iwan Madog oedd efo ni y ddwy flynedd dwetha, 'roedd ganddo fe syniadau da a chyfarwyddiadau newydd ar sut i gyflwyno darn o farddoniaeth a hynny am ei fod wedi gwneud Drama a Chymraeg yn y Coleg. Yn ein criw ni, sef Criw y Cwm, mae Alwen, Jessica, Sara, Isaías, Eluned, Margarita, Clare a fine, Mary. Os oes rhywun arall am ymuno â ni, Croeso!

'Ryda ni'n cael llawer o hwyl yn ymarfer ac yn dysgu llawer am farddoniaeth ac am y beirdd a'u hysgrifenodd.



Dewch i adrodd, mae'r iaith
Gymraeg mor swynol!

Mary Green

Yr Afon

'Rwyf yn hen ond yr un o hyd,
Yn troelli drwy'r anialwch diderfyn.
Camwy, cymen dy wedd,
Cwmpasog dy ffordd,
Dy fywiol lif yn araf, ddistaw
Ddisychedi'r tir diffaith.

"I rai wedi gorfod ceisio rhyw lun o fyw ar gacennau caled, llwydlyd y llong, 'roedd bara'r Wladfa fel bara angylion i ni." ("Ar lannau'r Camwy" gan W.M.Hughes)

Ymhob trofa,
Tra'n cywain y cynhaeaf,
Gorfoledda'r gwladfawyr,
Wele wyrth dan Groes y De:
Anobaith yn troi'n wenith!

Fore Gwener 21 o Orffennaf, 1899.

"Er yr ymdrech a wnaed i gadw ei dyfroedd o fewn ei cheulannau, torri drostynt wnaeth y genllif coch-lwyd ym mhen y Dyffryn Uchaf..." ("Ar Lannau'r Camwy" gan W.M.Hughes)

Dinistr y dŵr tywyll yn troi'r lle yn hunllef,
Addoldai, ysgolion a thai annedd
yn garnedd o adfeilion.
Trachwant y mwd drewllyd yn llenwi 'r lle
A'r Dyffryn yn fôr o fryn i fryn.
Gorchuddwyd y caeau!
"Ffowch tua'r brynau, ffowch.
Mewn pebyll ymgeleddwch."

O Gamwy greulon,
Ymbwyllo yn dy ruthr ffôl!
Gwêl y cur a'r loes!
Galw'r dyfroedd i'th geulannau'n ôl!

Wedi i'r afon ymbwyllo, ac i'r ffurfafen lasu, ac i'r dyffryn adgyfodi o'i ddyfrllyd fedd, yr oedd y Wladfa fel cyniweirfa morgrug, pawb wrthi a'i holl egni yn cario priddfeini a choed...ac ni bu eu ffydd yn ofer, mae'r nef yn gwenu heddiw ar blant y tonnau, a grawn aeddfed Ionawr yn gwledda'n helaeth ar waddod y dilyw"... ("Dringo'r Andes", gan Eluned Morgan.)

'Ryn ni yma o hyd,
Yma yn medi grawn aeddfed Ionawr,
Yma yn gwledda ar waddod y dilyw,
Yma, ar lan yr afon.

Mary Green

Dathlu'r Nadolig ym Mhatagonia

Mae sawl peth 'od' am fyw yn hemisffer y De - a nid jyst y ffaith bod y dŵr yn mynd i lawr y twll yn y sinc y FFORDD ANGHYWIR! Rhaid i chi ddod i arfer â cherddi yn Sbaeneg yn yr Eisteddfod a rhai o'r rheiny yn son am y dail yn troi'n lliwiau pert ac yn syrthio yng ngwynt hydrefol mis EBRILL! Mae fy mhenblwydd i ym mis CHWEFOR ac felly ar sawl achlysur yn yr hen wlad dw i wedi gorfod gohirio dathliadau oherwydd trwch o eira..dim peryg yma! Yn Nhrevelin barbeciw yn yr ardd amdani!



Felly beth am y Nadolig? Yn fy meddwl i ers yn blentyn mae'r Nadolig yn ŵyl i godi calon yng nghanol gaeaf gyda goleuadau yn nhywyllwch y nos, Robin Goch yn yr eira, coed pinwydd a'u haddurniadau yn sgleinio yng nghornel y tŷ, llwyth o anrhegion lliwgar odani, cardiau ar silff ben tân a'r holl fwydydd sydd ond ar gael yn ystod y tymor - mins peis, teisen Nadolig a chreision blas stwffin! Mae carolau yn cael eu chwarae yn y siopau ac mae mynd allan i'r eglwys am ganol nos Noswyl Nadolig yn achlysur i wisgo digon o ddillad rhag yr oerfel.

Beth am Nadolig Patagonaidd? Un o'r prif wahaniaethau ydy bod y paratodau yn dechrau yn agos iawn at y Nadolig: mae pawb yn rhy brysur efo diwedd yr ysgol i feddwl llawer cynt! Nid oes arfer anfon cardiau Nadolig yma felly mae hynny'n un peth llai i'w boeni amdano. Mae pob dim yn llai masnachol ac felly does dim angen prynu llawer o anrhegion, dim ond un yr un i'r teulu agos a does neb yn gorfod crafu pen a meddwl beth i brynu i bobl maen nhw'n weld unwaith y flwyddyn!

Bydd dathliad diwedd tymor yn y canolfannau Cymraeg gyda Noson Lawen neu gyngerdd fach a bydd y plant a'r disgyblion hŷn yn derbyn tystysgrif am eu llafur drwy'r flwyddyn. Bydd disgyblion yn Nhrevelin yn cael blas ar Gymru wrth i dwrci gael ei goginio - ond bydd digon o salads ar gael a dim ysgewyll ar hyd y lle o gwbl!

Noswyl Nadolig bydd amser i baratoi'r bwydydd ar gyfer cinio y noson honno. Yn ein tŷ ni bydd *pionono* - rhyw fath o Swiss Roll ond efo ham a chaws neu tiwna wedi rholio efo salad a digon o mayonnaise tu fewn. Wedyn bydd salad a chigoedd oer - does neb eisiau cinio poeth pan mae'n 25 gradd neu fwy y tu allan! I bwdin hufen iâ er i mi ddechrau cyflwyno pethau Cymreig fel treiffl a chacen gaws i amrywio ychydig! Mae'r teulu yn dod draw ar gyfer y bwyd sydd yn dechrau yn hwyr iawn fel bod pawb yn gallu dweud 'iechyd da' am hanner nos, ac wedyn mae pawb yn rhoi ac yn agor eu hanrhegion!

Roedd hyn yn rhyfedd iawn i mi ar y dechrau, rhyw deimlad bod y Nadolig wedi gorffen ar noswyl Nadolig ond rwan dw i wedi cyflwyno'r syniad o hongian hosan uwchben y lle tân a bod Siôn Corn yn llenwi honna gyda phethau bach difyr!

Felly mae dydd Nadolig yn ddiwrnod i'r teulu ymlacio a mwynhau cwmni ei gilydd. Yma yn yr Andes mae llawer o bobl yn mynd i'r Parc Genedlaethol ac yn coginio cyw neu gig dros dân agored ac yn mwynhau'r tywydd braf. Dyn ni'n gwneud asado bach adref ac weithiau mae ffrindiau yn galw heibio ac yn ymuno â ni. Ac wedyn ar Ragfyr 27 mae'r mwyafrif o bobl yn ôl yn y gwaith a'r Nadolig drosodd am flwyddyn arall.

Ble bynnag dych chi a sut bynnag dych chi'n dathlu, Nadolig Llawen iawn i chi gyd.



Clare Vaughan

Dydd Nadolig yn y mynyddoedd

O'r dosbarthiadau.....

Diwrnod i'r Brenin.....

Cael papur newydd a llond tecell o ddŵr ac yfed mate am hanner awr, wedyn buasai'n amser mynd am dro i Lyn Futalaufquen a phicnic gen i. Weithiau buasai'n braf cael bath bach yn y llyn a chyn iddi nosi troi nôl am adre eto i fwynhau'r golygfeydd hyfryd, a chael swper handi o rywbeth neis fel stêc a salad. Gwylïo'r teledu am awr cyn mynd i'r gwely. Fuasai hyn yn Ddiwrnod i'r Brenin!

Rini



Pan mae'r tywydd yn braf, dw i'n hoffi mynd am dro yn y car. Mynd i Lyn Futalaufquen yn y bore, cerdded ar hyd y llwybrau bach efo rhywun o'r teulu, wedyn cael cinio fuaswn i wedi paratoi. Chwarae efo'r plant wedyn a pharatoi mate wrth ochr y llyn.

Nelda

Diwrnod i'r Brenin i fi ydy cerdded ar y traeth yn y bore pan fydd y tywydd yn braf, a chael cinio efo ffrindiau - fy hoff fwyd i ydy asado efo salad.

Elvira

Diwrnod i'r Frenhines i fi yw yn yr haf pan mae yn ddiwrnod braf. Codi reit fore, mynd allan ar ôl cael diferyn o fati i ddyfrio'r blodau. Dw i'n hoffi gweld y blodau yn agor a'r borfa mor wyrdd. Cael cinio cynnar ac wedyn siesta fach. Yn y pwn, mynd i weld ffrindiau a cherdded o gwmpas. Cael swper ac eistedd i wylïo dipyn ar y teledu. Dyna Ddiwrnod i'r Frenhines!

Lizzie

Peidio codi yn fore iawn, yfed mate a bwyta tost, ac i orffen, gwydriad o sudd oren. Cael eistedd i lawr yn dawel i ddarllen papurau newydd ar yr Internet. Yn y pwn, cael ymweld â ffrind i gael sgwrs. Ar ôl i'r nos gyrraedd, cael sgwrs ar y ffôn efo'r plant. Swper bach a crosio dipyn cyn mynd i'r gwely. Ambell waith, gwylïo ffilm ar y teledu.

Aira

Dw i'n hoffi codi'n fore, cael brecwast wrth wrando ar gerddoriaeth yn isel, clywed yr adar bach allan. Mae'n well os na fydd galw am ddim byd. Cael cyw iâr wedi rhostio i ginio, a gweld yr wyrion a sgwrsio efo nhw. Buasai mynd i'r ffarm hefyd yn rhoi pleser i fi.

Esther



Dyma fyfyrwyr dosbarth Sylfaen Ana-Clara Cantero Simms yng Nghaerdydd yn dysgu am Jere, Ryan ac Ima, (dosbarth Wlpan 1 yr arddegau yn Esquel) yng nghylchgrawn Lingo!!



Cornel y Plant

Er gwaetha'r glaw didostur y tu allan, treuliodd blant Ysgol Gymraeg Esquel ac Ysgol Gymraeg Trevelin fore hwyliog iawn yng nghwmni'i gilydd yn y Ganolfan yn Esquel un bore dydd Sadwrn ym mis Awst. Dyma'r tro cyntaf iddyn nhw ddod at ei gilydd, ond daethon nhw dros eu swildod unwaith iddyn nhw gael gwers dawnio gwerin gyda Jessica (a Seren!) Ar ôl mwynhau dawnio 'Jac -y-do', rhannwyd y pymtheg i dri grŵp a chafwyd carwsel o weithgareddau (trwy gyfrwng y Gymraeg wrth gwrs) – gwneud gemwaith gyda Catrin, ein gwirfoddolwraig o Abertawe, gemau gyda Marina a choginio gydag Eluned. Cyn troi am adre, cawsom lond ein boliau o bitsa cartref, hufen iâ a bisgedi! Diolch o galon i Jessica, Catrin, Marina, Clare, Gladys a Glenda am eu cymorth a'u cefnogaeth. Y cwestiwn ar wefusau criw Esquel cyn gadael oedd pryd y byddan nhw'n mynd i Drevelin? Arwydd o fore llwyddiannus.....ac yn wir, daeth y criw at ei gilydd unwaith yn rhagor mewn twmpath dawn yn y Salón Central yn Nhrevelin ac mewn cyngerdd yn y Ganolfan yn Esquel ym mis Hydref.



**Rhai o blant
Ysgol Gymraeg
Trevelin yn
dathlu Diwrnod
Shwmae/Su' mae
ar y 15fed o
Hydref**



2013

Ysgrifennu rhywbeth ar ddiwedd y tymor.....rydyn ni wedi bod yn ysgrifennu drwy'r flwyddyn, a darllen, a siarad a chwerthin a chael hwyl. Wel, ia, mae hi wedi bod yn flwyddyn arbennig o brysur i'r dosbarthiadau.

Wedi cael athrawes o Gymru unwaith eto i arwain ein gwaith ac i ddatblygu'r iaith gydag amrywiaeth o weithgareddau diddorol a nosweithiau llawen gyda gemau dwl, clwb siarad yn Serenata, oedfaon yng Nghapel Seion, noson Siôn a Siân, cyrri a chwis. Cafwyd hefyd sawl gwirfoddolwraig eleni.

Ym mis Awst, cafwyd ymweliad arolygwr y Prosiect, Mr. Gareth Kiff, yn edrych ar bob dosbarth a siarad gyda'r disgyblion er mwyn gweld beth yw realiti'r gwaith yn yr Andes.

Hyfryd oedd gweld plant Trevelin ac Esquel ynghyd yn y Ganolfan ar Sadwrn Sbort yn chwarae, gwneud crefftau, coginio a dawnsio gwerin gyda'i gilydd! Diolch i Marina, Jessica, Catrin ac Eluned am baratoi popeth. Bore bythgofiadwy! Cafwyd pítsa hyfryd a hufen iâ cyn ffarwelio â chriw Trevelin a oedd yn mynd adre ar y bws.

Ym mis Hydref, fel arfer, croesawyd criw yr Urdd a chawson ni fwynhad wrth wrando arnynt yn canu mewn cyngerdd prynhawn dydd Sadwrn; yno perfformiodd Côr y Plant dan arweiniad Glenda, yr un grŵp oedd wedi cystadlu yn Eisteddfod Ysgol Puerta del Sol yn Nhrevelin, mewn cyflwyniad rhagorol.

Ar ôl llawer o dymhorau gwaith yn Ysgol Gymraeg Esquel (ers un ar bymtheg o flynyddoedd), hoffwn i ddweud bod pob un ohonynt yn unigryw a llwyddiannus. Ond rhaid rhoi sylw i grŵp o fechgyn yn eu harddegau, sy'n dilyn y Cwrs Wlpan eleni, a 'mod i wedi mwynhau pob eiliad yn eu plith wrth eu gweld nhw'n llawn bywyd a brwdfrydedd yn dysgu'r iaith, heb golli sesiwn.



Paratowyd rhaglen Mini Micro Eisteddfod i gloi'r tymor addysg ac mae pawb yn dangos diddordeb. Rydw i'n sicr y bydd o'n llwyddiant arall i goroni'r holl waith.

Diolch i bawb sy wedi cyfrannu. Diolch i Eluned, Marina, Liliana, Clare a Glenda am eu llafur ac ymroddiad diflino i wella'r Gymraeg yn ardal Esquel. Pob hwyl ar eich gwyliau (dych chi'n eu haeddu o ddifri!!)

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb!

Gladys Jones



Gair o'r Hen Wlad

Cyfarchion cynnes atoch chi drigolion yr Andes o Gaerdydd, gan obeithio na chawsoch Aeaf rhy galed a diflas. Yma yng Nghymru cawsom ni Aeaf hir a rhewllyd ac yna cawsom ni Wanwyn hwyr a symol, a dechrau Haf gwael ond yna cawsom ni Haf gwirioneddol braf a phoeth am rai wythnosau pan welwyd tymheredd yn codi i dri deg gradd ambell ddiwrnod, a phawb yn chwysu chwartian yn y gwres! Ond doedd neb am gwyno ar ôl yr holl dywydd gwael a gafwyd cynt.

Eleni, cynhaliwyd Gŵyl y Glaniad yng Nghymru yn nhre Aberteifi yng ngorllewin y wlad, a daeth tua 70 o bobl ynghyd o bob cwr o Gymru a Phatagonia i ddathlu'r Wyl. Roedd cynrychiolaeth yna o'r Andes a'r Dyffryn a braf oedd eu gweld yn ein plith.

Wythnos ar ôl yr Wyl yn Aberteifi, agorodd yr Eisteddfod Genedlaethol yn nhre Dinbych yng Ngogledd y Wlad, a chafwyd tywydd digon dymunol ar hyd yr wythnos a thyrodd tua 150,000 o bobl i fwynhau'r Eisteddfod hon.

Yma yn nhre Dinbych nôl yn 1939 y sefydlwyd Cymdeithas Cymru-Ariannin, pan gynhaliwyd yr Eisteddfod yn y dre y flwyddyn honno. Un oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw i sefydlu'r Gymdeithas oedd y diweddar R. Bryn Williams, hanesydd y Wladfa, bardd, pregethwr, ysgolhaig ac Archdderwydd. Cafodd ei fagu yn y Wladfa ond daeth i Gymru i fynd i'r Brifysgol ac yna penderfynu aros yma ond gan ymweld â'r Wladfa yn aml yn ystod ei oes.

Cofwyd am sefydlu'r Gymdeithas ym mhabell y Gymdeithas ar faes yr Eisteddfod ar ôl y Cyfarfod Blynyddol ar y Dydd Iau, gan fod y Gymdeithas yn 74 oed eleni. Cafwyd parti bach a thorwyd y gacen gan lywydd Anrhydeddus y Gymdeithas sef Elan Jones o'r Wladfa, ond sy'n byw bellach ers blynyddoedd yn ninas Lerpwl.

Ar hyd y blynyddoedd bu'r Gymdeithas yn gefn i ymdrechion y Gwladfawyr i ddiogelu'r iaith Gymraeg a'i diwylliant yn y Dyffryn a'r Andes, ac erbyn hyn mae tair cangen o'r Gymdeithas wedi eu sefydlu yng Nghymru sef Cangen Môn ac Arfon, Cangen y De a Changen Clwyd, a Changen Clwyd oedd yn gyfrifol am Babel y Gymdeithas ar faes yr Eisteddfod eleni, a bu'r Babel yn brysur yn croesawu nifer o Wladfawyr ac aelodau a ffrindiau'r achos. Mae'r Eisteddfod wedi dod i ben bellach ond yn barod mae pawb yn edrych ymlaen at yr Eisteddfod nesa a gynhelir yn nhre Llanelli. Bu'r Eisteddfod yno yn 2000 hefyd ac yn yr Eisteddfod honno yr enillodd Sandra de Pol, gynt o Drevelin, gystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn. Yna yn 2012 enillodd Isaías Grandis y gystadleuaeth yn Eisteddfod Bro Morgannwg, a felly dyna ddau o'r Andes yn rhoi Trevelin ar y map!

Pob llwydd i 'Llais yr Andes'. Edrychaf ymlaen at ddarllen pob rhifyn a phob llwydd i'ch ymdrechion dros yr iaith yn yr Andes.

Tan y tro nesa,
Hwyl fawr,

Gwilym E. Roberts



Digwyddiadau

Tachwedd 30ain am 6 o'r gloch-Micro Mini Eisteddfod Ysgol Gymraeg Esquel

Rhagfyr 1af am 11 o'r gloch-Oedfa'r Nadolig yng Nghapel Bethel, Trevelin gyda chinio Nadolig am hanner dydd. Cysylltwch ag Eluned neu Isaías am fwy o fanylion

Rhagfyr 2ail am 6 o'r gloch-Ysgol Gymraeg Trevelin yn dathlu diwedd y flwyddyn yn Ysgol 705

Rhagfyr 8fed am 5 o'r gloch-Oedfa'r Nadolig yng Nghapel Seion, Esquel gyda the Nadoligaidd yn y Ganolfan i ddilyn

Jam Lemon Cheese

Cynhwysion:

Un cwpanaid o siwgr

Llund llwy fwrdd o fenyn

Sudd a chroen un lemwn wedi gratio

Dau wy wedi eu curo'n dda



Cymysgwch y cwblwl a'i roi mewn cwpan enamel a'i osod ar y tân mewn sosban efo dŵr i ferwi (baño Maria), gan droi yn gyson nes y bydd wedi troi'n drwchus. Mi allwch ei ddefnyddio i wneud tarts neu ei fyta efo bara menynd.

Lizzie Lloyd

Geirfa

Cynulleidfa	Congregación/ auditorio/público	Plesio	Complacer/ satisfacer	Tymor	Trimestre/ término/ estación
Ymweliad	Visita	Masnachol	Comercial		
Ehangder	Magnitud	Tystysgrif	Certificado		
Chwysu	Sudar/transpirar	Gloddesta	Tener un ban- quete		
Archdderwydd	Archidruida	Gweithgared- dau	Actividades		
Cyfrifiad	Censo				
Coed pinwydd	Pinos				



Pam bod Sion Corn yn dew?

Am nad yw'n gwneud dim byd am 364 diwrnod o'r flwyddyn!



Naddolig
Llawen
a
Blwyddyn
Newydd dda

.....oddi-wrth bawb yn
Esquel a Threvelin!

